

CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

CROESO i gylchlythyr Llwybrau Celtaidd. Ynddo, cewch ddiweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu gwneud yn fawr o frand Llwybrau Celtaidd, a chynlluniau ar gyfer y prosiect i'r dyfodol sy'n annog teithwyr i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.

NEWYDDION

ARIAN YCHWANEGOL AR GYFER PARTNERIAETH LLWYBRAU CELTAIDD

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod Cyngor Sir Caerfyrddin, ar ran partneriaeth Llwybrau Celtaidd wedi gwneud cais llwyddiannus i raglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer ail Gam prosiect Llwybrau Celtaidd. Bydd yr ail gam hwn, gwerth £1.5 miliwn ychwanegol, yn mynd â'r prosiect ymlaen i 2023.

Mae'r bartneriaeth wedi

cynllunio rhaglen gyffrous yr ydym yn edrych ymlaen at ei rhannu gyda chi. Bydd yn galluogi rhwydweithiau presennol a newydd Llwybrau Celtaidd i ddatblygu ac adeiladu ar y llwyddiant hyd yn hyn a gweithio gyda'i gilydd i liniaru effeithiau Covid-19. Edrychwn ymlaen at weld eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad yn parhau wrth inni fynd â Llwybrau Celtaidd ymlaen i'r dyfodol.

RYDYM YN FALCH IAWN O
GYHOEDDI FOD
PARTNERIAETH LLWYBRAU
CELTAIDD WEDI SICRHAU
ARIAN YCHWANEGOL

PARTNERIAETH LLWYBRAU
CELTAIDD

EIN TAITH HYD YN HYN

BUSNESAU'N ELWA O
DEITHIAU DYSGU

DIWEDDARIAD AR
YMGYRCH FARCHNATA
YMWYBYDDIAETH BRAND
LLWYBRAU CELTAIDD


BRAND YN SEILIEDIG AR
WERTHOEDD A
PHROFIADAU CYFFREDIN

PECYN CYMORTH BRAND
LLWYBRAU CELTAIDD
NEWYDD I FUSNESAU

PARTNERIAETH LLWYBRAU CELTAIDD

Mae'r Llwybrau Celtaidd yn bartneriaeth rhwng cymunedau arfordirol Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a'n cymheiriaid Gwyddelig yn Wicklow, Wexford a Waterford.

Daethom at ein gilydd i gynnull ynghyd ddetholiad o brofiadau teithio wedi'u curadu fydd yn golygu y bydd teithwyr yn tramwyo heolydd llai cyfarwydd i ddarganfod golygfeydd a storïau sydd wedi lliwio ein rhannau arbennig iawn ni o'r byd.



Mae rhai busnesau wedi cychwyn ar daith Llwybrau Celtaidd. Gallwch chithau ymuno â ni ar y llwybr hwn tuag at dwristiaeth gynaliadwy.



LLWYBRAU CELTAIDD A COVID19

Mae pandemig Covid-19 wedi golygu ein bod oll wedi gorfod ail-ystyried ac addasu ein cynlluniau teithio wrth i amgylchiadau newid a chyfyngiadau wahaniaethu o fewn y DU ac Iwerddon. Mae partneriaid Llwybrau Celtaidd wedi parhau i gydweithio er mwyn ymateb yn briodol.

Mae'r rhaglen yn parhau i ffocysu ar ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o frand Llwybrau Celtaidd er mwyn dylanwadu ar gynlluniau teithio i'r dyfodol, tra bod partner gyrchfannau unigol yn parhau i ddarparu negeseuon priodol ar lefel y gyrchfan.

Ydych chi wedi ymrwymo i Siarter Ddiogelwch Covid-19 (yn Iwerddon) neu wedi gwneud cais am nod 'Barod Amdani' ar gyfer Cymru a gweddill y DU?

<https://goodtogo.visitbritain.com>

Caiff y ddwy fenter eu cefnogi gan y llywodraethau perthnasol ac maent yn cynnwys canllawiau ar sut i baratoi ar gyfer ail-agor busnesau twristiaeth ac eraill cysylltiol yn ddiogel, ac i roi hyder i ymwelwyr tramor mewn busnesau twristiaeth.




TAITH Y LLWYBRAU CELTAIDD HYD YN HYN

BUSNESAU'N ELWA O DEITHIAU DYSGU

Mae prosiect Llwybrau Celtaidd wedi galluogi nifer o fentrau o Gymru i ymweld ag Iwerddon ac fel arall i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer Teithiau Dysgu yn gallu rhannu arfer gorau a meithrin perthnasoedd newydd fydd

yn gosod sylfaen ar gyfer rhwydweithiau sy'n ffurfio rhan o bortffolio cynhyrchion Llwybrau Celtaidd.

Mae peth o'r adborth o'r cyfnewidiadau yn dangos awydd i rannu a chydweithio.



“rydym yn cadw cysylltiad gyda nifer o bobl wahanol”

“buom yn edrych ar y potensial ar gyfer eco-dwristiaeth”

“defnyddiwyd yr amser yn ystod y cyfnod clo i ddatblygu casgliad cwbl newydd o gynhyrchion ar y cyd [â'n cysylltiadau ar y daith ddysgu], yn cwmpasu'r holl siroedd yn ardal y Llwybrau Celtaidd”

“buom yn datblygu cynnwys digidol i greu rhith brofiadau hygyrch ar gyfer pobl na allant deithio. [Mae] eisoes wedi creu tipyn o ddilyniant a byddent yn awyddus i ehangu hwn ymhellach”

“maen nhw'n canolbwyntio ar ddenu'r farchnad Americanaidd ac fe roeson nhw syniadau inni ar gyfer gwneud yr un peth ”

“Does ganddyn nhw ddim grŵp fel ein un ni ac fe gawson nhw eu rhyfeddu gan ein cyd-feddwl a'r ffaith nad oeddem yn ceisio dwyn busnes ein gilydd a'n bod yn awyddus i greu mudiad cyffelyb”

“mae gennym atyniadau unigryw ar gyfer ymwelwyr o hyd, yn enwedig gyda Coronafeirws ar hyn o bryd gan fod ein gwyliau yn y wlad”

”



LLWYBRAU CELTAIDD –

BRAND YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD A PHROFIADAU CYFFREDIN

Un o elfennau allweddol Llwybrau Celtaidd yw tynnu sylw ein cynulleidfaoedd targed at y perthnasoedd hanesyddol a diwylliannol dwfn a hirsefydlog rhwng ein hardaloedd yn ne orllewin Cymru a de ddwyrain Iwerddon, yn ogystal â phwysleisio'r nodweddion tirweddol tebyg a'r

agosrwydd daearyddol a hwylustod teithio.

Mae Covid-19 wedi gwneud i bobl feddwl yn fwy gofalus am deithio, gan gynnwys a ddylent ystyried osgoi cyrchfannau poblogaidd a chwilio am leoedd newydd a'u heffaith ar y cymunedau y maent yn mynd iddynt. Mae

gwyliau-gartref wedi mynd yn boblogaidd iawn, ac mae trigolion ac ymwelwyr wedi mwynhau perthynas ddyfnach gydag ardaloedd yn agosach at adref, gan greu adegau arbennig fydd yn cael eu trysori. Hyn, ynghyd â ffocws ar y byd naturiol, yw craidd brand Llwybrau Celtaidd.

Y DAITH HYD YN HYN: DIWEDDARIAD AR YR YMGYRCH FARCHNATA

Y cynulleidfaoedd targed ar gyfer brand Llwybrau Celtaidd yw Crwydrwyr Diwylliannol, Crwydrwyr Actif a Chrwydrwyr Teuluol Actif yn y DU, Iwerddon, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Unol Daleithiau sydd eisoes wedi ymweld ag Iwerddon neu Gymru, ac sy'n ystyried neu'n cynllunio ymweliad â'r Iwerddon a Chymru, yn ogystal â thrigolion y ddwy wlad sy'n cynllunio 'gwyliau gartref'.

Ar ôl cychwyn cryf i'r ymgyrch, daeth y cyfan i ben am gyfnod o fis Mawrth. Trwy ddarpariaeth ddigidol hyblyg, ffocws creadigol cryf ar y brand, a chyd

negeseuon gofalus a chyfrifol oedd yn sensitif i gyfyngiadau teithio, mae partneriaeth Llwybrau Celtaidd wedi gallu addasu. Gan weithio gyda'r arbenigwyr cyfryngau a gyflogodd a dylanwadwyr teithio proffesiynol, cafodd yr ymgyrch ei hail-bwrpasu'n ofalus ar gyfer gwyliau-gartref ac er mwyn ysbrydoli rhestrau dymuniadau Llwybrau Celtaidd ar gyfer cynllunio teithiau i Gymru ac Iwerddon yn y dyfodol.



HYSBYSEB DELEDU LLWYBRAU CELTAIDD YN CAEL EI DANGOS AM Y TRO CYNTAF AR DDYDD

Ar 1 Mawrth, sef Dydd Gŵyl Dewi, cafodd ein hysbyseb deledu newydd, a ffilmwyd ar leoliad ledled y Llwybrau Celtaidd, ei dangos am y tro cyntaf. Bydd modd gweld yr hysbyseb, a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â'n partneriaid ffilmiau, sef Mother Goose, ar sgriniau, llechi a ffonau clyfar yn ystod y

misoedd nesaf, drwy blatfformau teledu gan gynnwys Sky Ireland, Sky Regional, RTE ac S4C; a bydd modd ei gweld ar ITVHub ac All4 fel fideo ar gais. Gellir gweld yr hysbyseb ar draws sianeli cymdeithasol hefyd drwy ymgyrch wedi'i thargedu, ac mae hysbysebion digidol a thalu fesul clic (PPC)



hefyd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gweld yr hysbyseb.

SYLW YN SGIL TAITH I'R WASG

Sylw yn sgil taith i'r wasg
Mae rhan fawr o'n gwaith cysylltiadau cyhoeddus yn seiliedig ar deithiau i newyddiadurwyr a drefnir gan ein cwmni cysylltiadau cyhoeddus, sef Working Word. Yn 2020 roedd dros ddeg taith i leoliadau Llwybrau Celtaidd wedi'u trefnu gyda gwahanol bapurau newydd a chylchgronau cenedlaethol, ond yn anffodus bu'n rhaid

canslo pob un ond dau oherwydd y pandemig (i'w had-drefnu ar gyfer gwanwyn 2021).

Choice

Taith gyda chylchgrawn *Choice* oedd un o'r teithiau a aeth yn ei blaen yn hydref 2020. Ymwelodd y cylchgrawn â siroedd Llwybrau Celtaidd Cymru dros sawl diwrnod, gan arwain at erthygl nodweddi arbennig 9 tudalen o hyd o'r enw

'Celtic Connections' yn y cylchgrawn ym mis Ionawr 2021. Ymwelodd y golygydd Norman Wright â lleoliadau gan gynnwys Gerddi Aberglasne, Abaty Ystrad Fflur a Rhaeadrau Cenarth ac arhosodd a bwytaodd mewn lleoliadau gan gynnwys y Cawdor, Parc Slebech a'r Falcondale. Mae ail daith gyda chylchgrawn *Choice*, y tro hwn i'r siroedd Llwybrau Celtaidd yn lwerddon, yn cael ei threfnu cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n caniatáu.



PECYN CYMORTH BRAND LLWYBRAU CELTAIDD NEWYDD I FUSNESAU

Rydym yn falch o'ch cyflwyno i becyn cymorth Llwybrau Celtaidd. Mae'r pecyn yn amlinellu gwerthoedd craidd y brand a sut maen nhw'n cael eu trosi'n dwristiaeth gyfrifol, profiadau cofiadwy ac eiliadau i'w trysori.

Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys nifer o asedau cyfryngau y gallwch eu defnyddio yn eich marchnata eich hun, gan eich galluogi i fanteisio'n llawn ar, ymgysylltu â ac ychwanegu gwerth at y sianeli a ddatblygwyd eisoes gan Llwybrau Celtaidd, gan gynnwys gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwaith y wasg Llwybrau Celtaidd.

Porwch drwy'r pecyn cymorth a'i lawr lwytho o wefan Llwybrau Celtaidd **YMA**.



CAM 2

Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar sbarduno adferiad cyflym wedi Covid-19 trwy ymgrych farchnata ddomestig ar gyfer gwyliau-gartref "gydol y flwyddyn" yn ogystal â buddsoddi mewn marchnadoedd tramor i symblu diddordeb a datblygu gwaddol i frand Llwybrau Celtaidd. Bydd fîm y prosiect yn gweithio'n agos â rhwydweithiau thematig sy'n gydnaws â themâu craidd Llwybrau Celtaidd sef Antur Celtaidd; Diwylliant a Threftadaeth Geltaidd; Tir a Môr Celtaidd; Pobl a Lleoedd Celtaidd. Er mwyn cryfhau dyfnder y cynnyrch

caiff busnesau eraill eu galluogi i chwarae rhan uniongyrchol yn cyd-ddylunio a datblygu cynhyrchion a phrofiadau archebadwy fydd yn addas i'w hyrwyddo i Drefnwyr Teithiau a Chwmnïau Cartref i'w gwerthu i ddefnyddwyr.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am sut i fod yn rhan o Llwybrau Celtaidd, ewch i'n gwefan www.llwybrauceltaidd.cymru neu cysylltwch â Sian Jones ar RSJones@sirgar.gov.uk

 **LLWYBRAU CELTAIDD
CELTIC ROUTES**
BEALAÍ NA gCEILTEACH